
Adolygiad Ofcom o sianel deledu arfaethedig BBC Scotland

GWAHODD SYLWADAU:

Dyddiad cyhoeddi: 29 Tachwedd 2017

Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 14 Rhagfyr 2017

Gair am y ddogfen hon

Mae'r BBC wedi cyhoeddi cynigion i lansio sianel deledu newydd ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban flwyddyn nesaf.

Er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, mae'n rhaid i Ofcom bwysu a mesur unrhyw newidiadau mae'r BBC yn dymuno eu gwneud i'w wasanaethau teledu, radio ac ar-lein cyhoeddus.

Mae Ofcom nawr yn cynnal asesiad cychwynnol o gynigion y BBC ar gyfer ei sianel newydd ar gyfer yr Alban er mwyn penderfynu a oes cyfiawnhad yng nghyd-destun gwerth posibl i'r cyhoedd a'r effaith ar gystadleuaeth.

Rydyn ni'n gwneud hyn drwy ddadansoddi'r achos sydd wedi cael ei gyflwyno gan y BBC a drwy gynnal ymchwil i'r farchnad ymysg cynulleidfaoedd yn yr Alban.

Yn y ddogfen hon, rydyn ni hefyd yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid y mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio arnyn nhw ac mae'n rhaid cyflwyno'r safbwyntiau hynny erbyn 14 Rhagfyr 2017.

Rhaid i ni gwblhau ein hasesiad cychwynnol cyn pen chwe wythnos, ac ar ôl hynny byddwn yn penderfynu a oes angen adolygiad ail gam manylach.

Contents

Section

1. Cyflwyniad	1
2. Cwestiynau	7

1. Cyflwyniad

- 1.1 Er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, mae'n rhaid i Ofcom bwysu a mesur newidiadau mae'r BBC yn dymuno eu gwneud i'w wasanaethau teledu, radio ac ar-lein cyhoeddus.
- 1.2 Y 'Gwahoddiad am sylwadau' hwn ydy dechrau ein hasesiad o gynnig y BBC i lansio sianel newydd ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban. Rhaid i ni benderfynu a fydd y gwerth cyhoeddus y gallai'r sianel newydd ei ddarparu yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar gystadleuaeth a allai ddeillio o'r cynnig.

Y Cefndir

- 1.3 Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu rhaglenni sy'n cyflawni ei genhadaeth, gall y BBC edrych ar newid ei weithgareddau presennol neu geisio datblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd.
- 1.4 Mae modd ystyried bod rhai newidiadau yn rhai bach; er enghraifft penderfyniadau golygyddol o ddydd i ddydd am raglenni unigol neu eu hamserlen. Serch hynny, gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, gallai newidiadau eraill y mae'n dymuno eu gwneud effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth yn y farchnad cyfryngau ehangach.
- 1.5 Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r effaith honno'n gadarnhaol. Mae'n bosibl i'r BBC wella gwerth cyhoeddus a hybu cystadleuaeth drwy gynnig mwy o ddewis, ysgogi'r galw neu hyrwyddo arloesedd er budd dinasyddion a defnyddwyr yn y DU.
- 1.6 Serch hynny, gallai rhai o'r newidiadau mae'r BBC yn eu cynnig niweidio cystadleuaeth; er enghraifft drwy atal trydydd partiön rhag buddsoddi, a fyddai yn y pen draw yn golygu canlyniadau negyddol i gynulleidfaoedd. Oherwydd hyn, mae Siarter a Chytundeb Fframwaith y BBC, sy'n nodi cenhadaeth a dyletswyddau'r BBC, yn mynnu bod y BBC yn gyntaf ac wedyn Ofcom yn ystyried effeithiau newidiadau mawr i wasanaethau teledu, radio ac ar-lein cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth.¹
- 1.7 Cyhoeddodd y BBC ei asesiad ei hun o'i gynnig i lansio sianel newydd ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban ar 30 Tachwedd 2017.² Fel rhan o'r asesiad hyn, daeth Bwrdd y BBC i'r casgliad fod y cais yn pasio prawf lles y cyhoedd. Bydd Ofcom nawr yn cynnal ei asesiad ei hun o gynigion y BBC er mwyn penderfynu a oes cyfiawnhad o ran y gwerth posibl i'r cyhoedd a'r effaith ar gystadleuaeth.

¹ Mae'r "Siarter" yn cael ei ddefnyddio yng ngweddill y ddogfen hon i gyfeirio at y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarledu Brydeinig. Mae'r "Cytundeb" yn cyfeirio at y Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarledu Brydeinig. Mae'r ddau ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement>.

² http://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/accountability/consultations/scotland_tv

Cynnig y BBC

- 1.8 Bydd y sianel newydd, BBC Scotland, yn darlledu oriau craidd bob dydd o 7pm tan ganol nos. Bydd y sianel yn darlledu o 12pm i'w galluogi i ddarlledu digwyddiadau gwleidyddol a chwaraeon byw a digwyddiadau arbennig eraill yn ôl y galw. Bydd cyd-ddarllediad BBC 2 yn llenwi'r amserlen rhwng ac o gwmpas y digwyddiadau hyn a 7pm. Bydd BBC Scotland ar gael ar bob un o'r prif lwyfannau daearol, cebl a lloeren yn yr Alban, a drwy'r iPlayer yng ngweddill y DU.
- 1.9 Mae cynlluniau'r BBC ar gyfer y sianel yn cynnig:
- Cyllideb rhaglenni o dros £32 miliwn y flwyddyn;
 - Rhaglen newyddion (am 9pm o ddydd Llun i ddydd Gwener) yn rhoi sylw i straeon "rhyngwladol, o'r DU ac o'r Alban o safbwynt Albanaidd" gyda bwletinâu byrrach ar benwythnosau;
 - Rhai rhaglenni a oedd yn arfer cael eu dangos ar BBC Two Scotland
 - Rhaglenni newydd sy'n adlewyrchu bywyd pobl yr Alban gan gynnwys y cyfle i ddangos rhaglenni comedi a dramâu newydd; a
 - Rhaglenni o'r archif ac ailddarllediadau. Mae'r BBC yn datgan y bydd tua 50% o'r rhaglenni ar y sianel yn ailddarllediadau.
- 1.10 Fel rhan o'i gynnig, mae'r BBC hefyd wedi dweud:
- Byddai BBC Scotland yn cymryd y lle sy'n cael ei ddefnyddio gan BBC Four ar gyfeiryddion rhaglenni electronig yn yr Alban. Byddai BBC Four yn symud i slot gwahanol yn yr Alban. Ni fyddai hyn yn effeithio ar wasanaethau yng ngweddill y DU.
 - Bydd yr arferiad o ddangos rhaglenni arwahân ar BBC Two yn unig yn yr Alban yn dod i ben. Yn lle hynny byddai gwylwyr BBC Two yn yr Alban yn gweld yr un rhaglenni â gwylwyr yn Lloegr.
 - Byddai wyth deg o swyddi newyddiaduraeth newydd yn cael eu creu er mwyn cefnogi gweithrediadau newyddion BBC Scotland. Byddai hyn hefyd yn arwain at fwletin newyddion Gaeleg newydd ar benwythnosau ar BBC ALBA.

Dadansoddiad y BBC

- 1.11 O dan delerau'r Cytundeb Fframwaith, mae'n rhaid i'r BBC asesu a ydy unrhyw newid arfaethedig i'w wasanaeth cyhoeddus yn 'sylweddol'.³ Os bydd yn penderfynu bod newid yn

³Caiff newid sylweddol ei ddiffinio fel un pan fydd y BBC yn cynnig naill ai darparu "gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU" neu wneud newid "a all gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol". Ym mharagraff 4:33 ein Harweiniad BCA (edrychwch ar droednodyn 6 isod) roedden ni wedi darparu rhestr ragarweiniol o ffactorau a allai helpu i benderfynu ar ba mor sylweddol ydy cynnig. Roedd y rhain yn cynnwys a fyddai effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn digwydd yn gyflym neu mewn ffordd na fyddai modd ei gwyrddroi petai'r cynnig yn cael ei gyflwyno, costau cynyddol y newid arfaethedig, ac a ydy'r BBC yn ymuno â marchnad newydd.

'sylweddol', mae'n rhaid i'r BBC gynnal asesiad pellach o'r enw 'prawf lles y cyhoedd' (PIT yn Saesneg) a adolygir gan Fwrdd y BBC.

- 1.12 Er mwyn cymeradwyo cynnig, rhaid i Fwrdd y BBC fod yn fodlon bod y prawf lles y cyhoedd wedi llwyddo i ddangos:
- a) bod y cynnig arfaethedig yn cyfrannu at genhadaeth y BBC ac o leiaf un o'r dibenion cyhoeddus;
 - b) bod camau rhesymol wedi cael eu cymryd i sicrhau na fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol diangen ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a,
 - c) bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 1.13 Os bydd Bwrdd y BBC yn fodlon, yna caiff y prawf lles y cyhoedd ei gyflwyno i Ofcom i ni ei adolygu.
- 1.14 Yn yr achos hwn, daeth y BBC i'r casgliad y byddai ei gynnis i lansio sianel BBC Scotland yn golygu newid sylweddol i'w wasanaethau a chynhaliodd brawf lles y cyhoedd yn ystod haf 2017. Mae'r BBC wedi cyhoeddi canlyniadau ei brawf lles y cyhoedd heddiw, gan egluro pam ei fod yn credu bod y prawf lles y cyhoedd yn cael ei ddiwallu yn yr achos hwn. Rôl Ofcom nawr ydy cynnal ei asesiad ei hun.

Rôl Ofcom

- 1.15 Mae gan Ofcom rôl i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol pan fydd y BBC yn cynnig newidiadau i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, rhaid i ni sefydlu a ydy gwerth cyhoeddus newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 1.16 Byddwn nawr yn adolygu prawf lles y cyhoedd y BBC ac yn cynnal ein hasesiad ein hunain o gynllun y BBC ar gyfer sianel deledu newydd yn yr Alban er mwyn penderfynu a ddylid caniatáu iddo fwrw ymlaen yn y ffurf mae'r BBC wedi'i gynnis.
- 1.17 Mae'r Cytundeb yn rhannu'r gwaith hwn yn ddau gam. Yn ystod y cam cychwynnol, y mae'n rhaid i ni ei gwblhau erbyn 14 Rhagfyr 2017⁴, mae'n rhaid i ni:
- a) cadarnhau a ydyn ni'n cytuno â'r BBC bod ei gynnis yn 'sylweddol' yn unol â'r diffiniad sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Fframwaith; ac, os ydyn ni'n cytuno
 - b) penderfynu ar ba ffurf dylai ein hasesiad manwl fod yn ystod yr ail gam.

⁴Os byddwn yn penderfynu yn ystod y cam cychwynnol nad oes gennym ni ddigon o wybodaeth am y cynnis er mwyn i ni allu cwblhau ein gwaith, neu os yw'n ymddangos i ni bod angen rhagor o waith sylweddol ar gynnis y BBC, gallwn gyfarwyddo'r BBC i dynnu ei gyhoeddiad yn ôl a'i ailgyhoeddi a'i ailgyflwyno dim ond pan fydd y gwaith hwnnw wedi cael ei gwblhau - Arweiniad BCA, para 4.26

- 1.18 Bydd ein hail gam naill ai ar ffurf Asesiad Cystadleuaeth BBC ('BCA') neu Asesiad Byrrach. Yn ein dogfen arweiniad *Assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities* ('yr Arweiniad BCA')⁵, rydyn ni'n egluro:
- a) mae BCA yn fwy tebygol o fod yn briodol "pan fydd cynnig yn codi materion mawr, cymhleth a/neu arbennig o ddadleuol, a allai gynnwys nifer o bartïon sydd â diddordeb a ffyrdd lle gallai fod effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol"; ond
 - b) Mae Asesiad Byrrach yn debygol os "oes ystod lai o faterion i'w hystyried," er enghraifft pan fyddwn yn ystyried bod prawf lles y cyhoedd y BBC "yn rhoi sylw digonol i'r holl faterion (neu'r rhan fwyaf)".
- 1.19 Mewn BCA neu Asesiad Byrrach, bydd ein gwaith yn cynnwys:
- a) adolygiad o'r gweithdrefnau mae'r BBC wedi'u dilyn wrth gyflawni ei brawf lles y cyhoedd;
 - b) adolygiad o asesiad y BBC o werth cyhoeddus, gan brofi dadansoddiad y BBC a'r ystod o dystiolaeth roedd wedi dibynnu arni i ddangos gwerth cyhoeddus ychwanegol y cynnig sy'n fwy na'i wasanaethau presennol;
 - c) ein hasesiad ein hunain ynghylch a fyddai'r newidiadau a fyddai'n deillio o gynnis y BBC yn cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, casglu dystiolaeth ychwanegol ac ystyried materion sydd wedi cael eu codi gan randdeiliaid eraill fel sy'n briodol; ac
 - d) asesiad terfynol ynghylch, ar sail ffeithiau penodol yr achos ac ar ôl ystyried yr holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau perthnasol, a ydy gwerth cyhoeddus y cynnig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 1.20 Ar ddiwedd y broses, mae'n rhaid i ni gyrraedd un o bedwar⁶ penderfyniad posibl:
- a) mae'r BBC yn cael cyflawni'r cynnig ar y ffurf a gyflwynwyd i ni;
 - b) ni chaiff y BBC gyflawni'r cynnig;
 - c) caiff y cynnig fynd ymlaen, yn amodol ar unrhyw amodau neu addasiadau rydyn ni'n eu mynnu; neu
 - d) rhaid i'r BBC ailystyried elfennau o'i brawf lles y cyhoedd neu ddilyn unrhyw weithdrefnau eraill o'r fath sy'n briodol yn ein barn ni.
- 1.21 Byddwn bob amser yn ceisio cwblhau ein gwaith mor gyflym ac mor effeithlon â phosibl. Rhaid i Ofcom gwblhau BCA cyn pen chwe mis⁷. Yn groes i hynny, rhaid cwblhau Asesiad

⁵ Mae'r Arweiniad BCA ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0028/99415/bbc-public-service-activities-proposed.pdf.

⁶ Yn achos Asesiad Byrrach, nid ydy'r Cytundeb yn caniatáu i ni benderfynu na chaiff y BBC wneud y newid na mynnu ei fod yn gwneud addasiadau. Serch hynny, os byddwn yn dod o hyd i faterion yn ystod Asesiad Byrrach ei bod yn ymddangos bod dulliau o'r fath yn briodol er mwyn datrys y materion dan sylw, gallwn ymestyn y weithdrefn o Asesiad Byrrach i BCA.

⁷ Oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Edrychwch ar baragraff 2.6 ein Harweiniad.

Byrrach, oherwydd ei fod yn cynnwys cyfres o faterion sydd wedi'u targedu'n fwy, mewn llai na chwe mis.

- 1.22 Yn y naill achos neu'r llall, byddwn ni'n ymgynghori â rhanddeiliaid cyn penderfynu a ydy gwerth cyhoeddus y cynnig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol a allai ei chael ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Ein hasesiad cychwynnol o gynnis BBC Scotland a gwahodd sylwadau

- 1.23 Mae'r Cytundeb Fframwaith yn datgan yn glir y bydd cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus newydd bob amser yn 'sylweddol'. Ar yr amod ein bod yn fodlon bod cynnis BBC Scotland yn wasanaeth cyhoeddus newydd, nid oes angen dadansoddiad pellach i benderfynu ar ba mor sylweddol ydy cynnis y BBC i lansio sianel newydd yn yr Alban.
- 1.24 Yn yr asesiad cychwynnol hwn, rydyn ni felly'n bwriadu canolbwyntio ar benderfynu:
- a) a ydy prawf lles y cyhoedd y BBC yn cynnwys digon o wybodaeth am ei gynnis er mwyn ein galluogi i gwblhau asesiad cystadleuaeth manylach yng ngham dau; ac os felly
 - b) a ydy hi'n briodol cynnal BCA llawn neu Asesiad Byrrach.
- 1.25 Os yw'n bosibl, byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfnod hwn i ddechrau casglu tystiolaeth ac adolygu'r gweithdrefnau roedd y BBC wedi'u dilyn yn ystod ei ymgynghoriad ar y prawf lles y cyhoedd.
- 1.26 Er mwyn helpu'r ddau ohonom i fynd i'r afael â'r materion penodol ym mharagraff 1.24 uchod, ac er mwyn deall sut mae rhanddeiliaid yn ystyried y bydd lansio sianel BBC newydd ar gyfer yr Alban yn effeithio arnyn nhw petai'n digwydd, byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau sydd yn Adran 2 isod. Mae croeso hefyd i ymatebwyr ddarparu unrhyw dystiolaeth arall -er enghraifft, ymchwil i'r farchnad a fyddai'n gallu cyfrannu at ein gwaith.
- 1.27 Rhaid i ni gwblhau'r cam cyntaf hwn erbyn 11 Ionawr 2018. Er mwyn i ni allu ystyried yr holl ymatebion a gyflwynir, y dyddiad olaf ar gyfer anfon cyflwyniad ydy 14 Rhagfyr 2017.
- 1.28 Dylai ymatebwyr nodi hefyd y byddwn yn trin yr holl sylwadau fel rhai nad ydynt yn gyfrinachol ac y gallwn gyfeirio atyn nhw yn y gwaith rydyn ni'n ei gyhoeddi, oni bai fod yr ymatebwyr yn nodi fel arall. Rhowch unrhyw rannau cyfrinachol o'ch ymateb mewn atodiad ar wahân gan egluro pam rydych chi'n credu eu bod yn gyfrinachol. Byddwn yn cyhoeddi cyflwyniadau nad ydyn nhw'n rhai cyfrinachol ar ôl i ni orffen ein hasesiad cychwynnol.
- 1.29 Os ydyn ni'n penderfynu cynnal proses BCA neu Asesiad Byrrach ddilynol, bydd yr holl gyflwyniadau'n cael eu hystyried. Byddwn hefyd yn ystyried darganfyddiadau ein hasesiad cychwynnol, ynghyd â'n dadansoddiad o gynnis y BBC ac unrhyw ymchwil i'r farchnad rydyn ni'n penderfynu ei wneud.

Y camau nesaf

- 1.30 Byddwn yn cyhoeddi ein casgliadau ar neu cyn 11 Ionawr 2018 ynghylch a ydy prawf lles y cyhoedd y BBC yn cynnwys digon o wybodaeth er mwyn i ni allu cwblhau asesiad cystadleuaeth manylach.
- 1.31 Ar yr adeg honno byddwn hefyd yn amlinellu'r math o asesiad pellach rydyn ni'n bwriad ei gynnal.
- 1.32 Os byddwn yn dod i'r casgliad bod angen asesiad pellach, yna byddwn yn dechrau BCA neu Asesiad Byrrach. Byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn ystod ein BCA neu ein Hasesiad Byrrach cyn penderfynu.
- 1.33 Mae manylion ychwanegol am y prosesau y gallen ni eu cynnal wedi'u nodi yn ein Harweiniad BCA. Mae amserlen ddangosol sy'n amlinellu pryd rydyn ni'n bwriadu cwblhau ein gwaith ar gael ar ein gwefan.

Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ymateb

- 1.34 Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb i'r cwestiynau yn Adran 2 ydy 14 Rhagfyr 2017.
- 1.35 Dylid anfon yr ymatebion i BBCScotland.Assessment@ofcom.org.uk.

2. Cwestiynau

- 2.1 Mae Ofcom yn gwahodd trydydd partiön i ateb y cwestiynau isod. Rhowch dystiolaeth gefnogol i Ofcom pan fydd hynny'n bosibl.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n meddwl bod y cynigion mae'r BBC wedi'u cyhoeddi yn glir o ran eu graddfa (o ran adnoddau ariannol ac o ran cyrhaeddiad a'r math o gynnwys) a'r amserlenni ar gyfer gweithredu? Os nad ydych chi, rhowch fanylion am y meysydd lle'r ydych chi'n meddwl bod angen bod yn fwy clir.

Cwestiwn 2: Oedd proses ymgynghori'r BBC wedi rhoi digon o gyfle i chi gyflwyno eich safbwyntiau'n llawn? Os nad oedden nhw, rhowch fanylion.

Cwestiwn 3: Oherwydd bod cynnig y BBC yn golygu cyflwyno sianel gwasanaeth cyhoeddus newydd, nid ydym yn credu bod angen dadansoddiad pellach er mwyn penderfynu a ydy'r newid yn sylweddol. Os ydych chi'n anghytuno, rhowch eich rhesymau pam rydych chi'n credu **nad** ydy'r cynigion mae'r BBC wedi'u cyhoeddi yn sylweddol.

Cwestiwn 4: Eglurwch a ydych chi'n meddwl y dylai Ofcom gynnal BCA neu Asesiad Byrrach o gynnig y BBC.⁸

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno ag asesiad y BBC yn ei brawf lles y cyhoedd ynghylch y gwerth cyhoeddus posibl a/neu effaith y cynnig ar y farchnad? Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennych i egluro eich safbwynt.

Cwestiwn 6: Ydy'r cynnig hwn yn amlygu unrhyw bryderon sylweddol o ran yr effaith ar y farchnad a allai effeithio ar eich cynnyrch a'ch gwasanaethau chi? Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennych i egluro sut rydych chi'n meddwl y gallai lansio sianel BBC newydd ar gyfer yr Alban effeithio arnoch chi petai'n digwydd.

⁸ Edrychwch ar baragraff 1.18 uchod. Mae manylion ychwanegol am y prosesau BCA a'r Asesiad Byrrach ar gael ym mharagraffau 4.35 i 4.37 yr Arweiniad BCA.